# Polisi Cwynion ac Adborth

**Gorffennaf 2022**

# Polisi Cwynion ac Adborth

## Rhagymadrodd

Rydym yn gweithio i gael pethau'n iawn y tro cyntaf a darparu'r lefel orau o wasanaeth ym mhopeth a wnawn. Rydym yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau ynghylch pa mor dda rydym yn gwneud, a defnyddiwn eich adborth i wella sut mae ein sefydliad a'n pobl yn gwneud eu gwaith. Mae adborth yn cynnwys dweud wrthym ble rydym wedi llwyddo, awgrymiadau am sut y gallwn wella, a chwynion ble efallai mae angen i ni wneud yn well.

Mae’r polisi hwn yn esbonio sut i ddarparu adborth, gwneud awgrymiadau neu gwyno am ein gwaith. Mae hefyd yn nodi sut y byddwn yn ymdrin â'ch adborth. Mae'n disgrifio sut rydym yn ymdrin â chwynion, os ydynt yn ymwneud â'n gwasanaeth neu ein staff, os ydynt yn honni camymddwyn o dan ein polisi disgyblu Adnoddau Dynol neu peidio, ac os ydynt yn cael eu trin o dan y rheoliadau Ymddygiad Staff neu beidio[1]. Mae troednodiadau'n dangos lle mae'r rheoliadau'n berthnasol.

## Ein safonau gwasanaeth

Mae ein safonau gwasanaeth yn berthnasol i'r holl waith a wnawn. Mae'r safonau hyn yn cynnig addewid i ddefnyddwyr gwasanaeth am yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni. Rydym yn anelu at:

- Sicrhau ein bod yn deall eich amgylchiadau a'ch anghenion. Byddwn yn dweud wrthych beth gallwn ni wneud a beth na allwn ni wneud, a'r rhesymau pam.
- Dweud wrthych am sefydliadau eraill a allai eich helpu os na allwn ei wneud.
- Cael proses glir a thryloyw er mwyn ymdrin ag unrhyw gwynion neu adborth sydd gennych am ein gwasanaeth.
- Eich trin â pharch a chwrteisi bob amser.
- Sicrhau bod ein gwasanaeth yn hygyrch ac yn ateb eich anghenion.
- Bod yn agored ac yn onest â chi ynghylch pa mor hir y credwn y bydd ein hymateb yn cymryd. Os credwn y byddwn yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl, byddwn yn rhoi gwybod i chi ac yn esbonio pam.
- Dweud wrthych beth yw ein canfyddiad(au) mewn perthynas â'ch adborth, a fydd yn waith annibynnol ac yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ni.
- Cadw unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch yn ddiogel a'i ddefnyddio fel y disgrifir yn ein hysbysiadau preifatrwydd yn unig.

[1] Rheoliadau Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (Ymddygiad Staff) 2004. Mae'r rheoliadau hyn yn cadw'r cyfeiriad at yr IPCC, ond maent hefyd yn gymwys i'r IOPC

Yn ogystal, byddwn yn trin eich adborth:

- Mewn modd rhesymol a chymesur.
- Ymddiheuro lle rydym wedi gwneud camgymeriadau.
- Bod yn agored ac yn onest wrth roi cyfrif am ein penderfyniadau a'n gweithredoedd.
- I wella ein gwasanaeth.

## Adborth a chwynion y gallwn ddelio â nhw

Gallwn ymdrin ag adborth a chwynion gan bobl yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan y ffordd yr ydym yn gwneud ein gwaith. Gallwch hefyd ddarparu adborth i ni ar ran rhywun y mae ein gwaith yn effeithio'n uniongyrchol arno, os yw'n cydsynio i chi wneud hynny.
Gallwn ymdrin ag adborth os:

- ydych yn meddwl ein bod wedi gwneud rhywbeth yn dda
- ydych yn meddwl ein bod wedi gwneud camgymeriad
- ydych yn meddwl nad ydym wedi bodloni ein safonau gwasanaeth IOPC
- oes gennych broblem ag achos rydym yn gweithio arno ar hyn o bryd (er enghraifft, os na allwch gysylltu â'r rheolwr gwaith achos neu'r ymchwilydd sy'n delio â'ch achos, neu os ydych yn anhapus â'r wybodaeth yr ydych yn ei derbyn)
- oes gennych awgrym o ran sut y gallem wella ein gwasanaeth
- ydych am wneud cwyn am ein gwaith
- ydych am anghytuno â'r modd yr ymdriniwyd â'ch cais Rhyddid Gwybodaeth (gweler tudalen tri am ragor o wybodaeth)

## Adborth a chwynion na allwn ddelio â nhw

Mae rhai pethau na allwn ddelio â nhw, a esbonnir isod.

- Ni allwn newid y penderfyniadau a wnawn ar eich achos.Efallai bydd eisiau cyngor cyfreithiol arnoch os ydych yn anhapus â'r penderfyniad a wnaethom ar eich achos.
- Ni allwn ymdrin ag adborth neu gwynion am Wasanaeth Erlyn y Goron na'r llysoedd.
- Ni allwn ymdrin ag adborth na chwynion am unrhyw adran arall o'r llywodraeth neu gorff cyhoeddus.
- Ni allwn ymdrin â chwynion na phryderon gan aelodau presennol neu gyn-aelodau o'n staff. Dylid cyfeirio'r rhain at ein hadran Adnoddau Dynol neu eu trin o dan ein polisi Lleisio Pryderon.
- Ni fydd cwynion sy'n fwy na 12 mis oed yn cael eu hystyried, heblaw bod rheswm da dros yr oedi.
- Bydd cwynion sy'n ymwneud â chyn-aelodau o staff yn cael eu hystyried i nodi unrhyw ddysgu, fodd bynnag ni ellir cymryd unrhyw gamau sy'n ymwneud â'u cyflogaeth yn erbyn cyn-aelodau o staff.

Os ydych am wneud cwyn am yr heddlu neu gomisiynydd heddlu a throsedd, ewch i'n gwefan, https://www.policeconduct.gov.uk/cy.
Os ydych am wneud cais am adolygiad o'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cwyn gan yr heddlu, ewch i'n gwefan, https://www.policeconduct.gov.uk/cy.

## Sut a phryd i roi adborth i ni neu i wneud cwyn

Y ffordd orau o ddarparu adborth i ni yw i siarad â'r person sy'n delio â'ch achos. Efallai gallant ddatrys eich problem yn syth. Mae'n well darparu adborth i ni cyn gynted ag y gallwch. Os byddwch yn gwneud cwyn am ein gwasanaeth a bod mwy na 12 mis wedi mynd heibio ers y digwyddiad y mae eich cwyn yn ymwneud ag ef, ni fyddwn fel arfer yn delio ag ef heblaw bod rheswm da dros yr oedi[2].

Gallwch hefyd ddarparu adborth i ni neu wneud cwyn yn y ffyrdd canlynol:

- E-bostiwch ganmoliaethau, adborth neu gwynion i feedback@policeconduct.gov.uk
- Ffoniwch ein prif switsfwrdd ar 0300 020 0096
- Ffoniwch ni ar 020 7166 3261 a gadewch neges â'ch manylion cyswllt ac adborth. Byddwn yn ddychwelyd eich galwad.
- Ysgrifennwch at:
  Tîm Gwella Ansawdd a Gwasanaeth
  Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
  PO Box 473
  Sale
  M33 0BW

Rydym yn croesawu galwadau ffôn, e-byst a chyfathrebu ysgrifenedig yn y Gymraeg.
Rydym yn croesawu galwadau ffôn, e-byst a chyfathrebu ysgrifenedig yn y Gymraeg.

## Diogelu Data neu Ryddid Gwybodaeth (FOI)

Os ydych am anghytuno â'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais am wybodaeth, naill ai mewn perthynas â Chais Hawliau Gwrthrych Data, cais Rhyddid Gwybodaeth, neu'n gyffredinol mewn perthynas â'r ffordd yr ydym yn ymdrin â'ch data personol, gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data (DPO). .

- Ebost: DPO1@policeconduct.gov.uk
- Ysgrifennwch at:
  Swyddog Diogelu Data
  Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
  10 South Colonnade
  Llundain
  E14 4PU

[2] Rheoliad 6(1)(a) yr IPCC (Ymddygiad Staff)

Ar gyfer cais FOI, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o'r penderfyniad. Mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn 40 diwrnod gwaith o dderbyn ein hysbysiad o benderfyniad. Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, neu ganlyniad unrhyw gŵyn a godwyd i'r DPO, yna mae gennych yr hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar wefan www.ico.org.uk.[3]

## Cwynion am safonau'r iaith Gymraeg

Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i'r ffordd y byddwn yn ymdrin â chwynion gan aelodau o'r cyhoedd sy'n ymwneud â'n cydymffurfiaeth â safonau'r iaith Gymraeg, ble mae gennym ddyletswydd statudol i gydymffurfio â hwy o dan Fesur yr Iaith Gymraeg [Cymru] 2011.
Mesur yr Iaith Gymraeg [Cymru] 2011.

## Os oes angen cymorth arnoch i gael mynediad at ein gwasanaethau

- Gallwch ofyn i ffrind, i aelod o'r teulu neu i gynrychiolydd arall i ddarparu adborth neu wneud cwyn ar eich rhan.
- Gallwch ofyn i Gyngor ar Bopeth neu wasanaeth eiriolaeth arall i ddarparu adborth neu wneud cwyn ar eich rhan.
- Gallwch ofyn i ni wneud addasiadau rhesymol i'r gwasanaeth a ddarparwn o dan ein polisi Gwneud Addasiadau Rhesymol i Ddefnyddwyr Gwasanaeth.

## Yr hyn sydd angen i ni wybod

Pan fyddwch yn anfon adborth neu gŵyn atom, dywedwch wrthym:

- eich enw llawn a'ch manylion cyswllt
- os ydych yn dymuno i ni gysylltu â chi
- sut rydych yn dymuno i ni gysylltu â chi
- eich cyfeirnod achos IOPC, os oes gennych un
- am bwy neu beth yr hoffech ddarparu adborth neu gŵyn i ni
- beth ddigwyddodd a sut mae hyn wedi effeithio arnoch chi – darparwch unrhyw ddogfennau neu dystiolaeth arall i'n helpu i ddeall eich adborth
- beth rydych am i ni wneud i ddatrys yr hyn sydd wedi digwydd (mewn geiriau eraill, pa ganlyniad rydych yn chwilio amdano)

[3] Cod Ymarfer Rhyddid Gwybodaeth Swyddfa'r Cabinet Gorffennaf 2018
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/722165/FOI-Code-of-Practice-July-2018.pdf

## Sut byddwn yn ymdrin â'ch adborth neu gŵyn

### Derbyniad o'r gŵyn

Mae'r tîm Gwella Ansawdd a Gwasanaeth yn cofnodi'r holl adborth a chwynion a dderbyniwn fel y gallwn ddysgu oddi wrthynt. Os byddwch yn anfon adborth neu gŵyn atom, a'ch bod wedi dweud wrthym eich bod am i ni gysylltu â chi, byddwn yn ei gydnabod o fewn tri diwrnod gwaith, fel eich bod yn gwybod ein bod wedi'i dderbyn a'i gofnodi.

### Penderfyniad ar ymdriniaeth

Bydd y tîm Gwella Ansawdd a Gwasanaeth yn gwirio a allwn ymdrin â'ch adborth neu gŵyn. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddeall eich adborth neu gŵyn fel y gallwn benderfynu ar y ffordd orau i ymateb iddi. Efallai y bydd angen i ni ofyn i chi am ragor o wybodaeth er mwyn gwneud y penderfyniad hwn.

Os na allwn ddelio â'ch adborth neu gŵyn, a'ch bod wedi dweud wrthym eich bod am i ni gysylltu â chi, byddwn yn dweud wrthych o fewn 20 diwrnod gwaith ac yn esbonio pam heblaw bod gwneud hynny ddim er budd y cyhoedd[4]. Gallai hyn fod oherwydd[5]:

- Rydych chi neu rywun arall wedi darparu'r adborth neu wedi gwneud y gŵyn o'r blaen ac nid oes unrhyw honiadau na thystiolaeth newydd i ymchwilio iddo.
- Nid yw'n rhesymol ymarferol i ymchwilio i'r adborth neu'r gŵyn oherwydd na allwn gyfathrebu â chi na'ch cynrychiolydd, neu oherwydd nad ydych wedi darparu digon o wybodaeth i ni. Fel arfer byddwn yn cau cwyn o fewn 10 diwrnod gwaith os na allwn gysylltu â chi neu os nad oes gennym ddigon o wybodaeth.
- Nid yw'n rhesymol, yn gymesur nac yn ymarferol i ymchwilio i'r adborth neu'r gŵyn oherwydd yr amser sydd wedi pasio. Ni fyddwn fel arfer yn ymchwilio i fater os digwyddodd fwy na 12 mis yn ôl, heblaw bod rheswm da dros yr oedi.
- Nid yw'n rhesymol ymarferol na chymesur i ymchwilio i'r adborth neu'r gŵyn oherwydd ni allwn adnabod yr aelod o staff dan sylw, neu eu bod wedi gadael y sefydliad.
- Mae'r adborth neu'r gŵyn yn flinderus, yn ormesol neu'n gamddefnydd o'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag adborth a chwynion.

Os gallwn ddelio â'ch adborth neu gŵyn, fe wnawn ni naill ai:

- Ddiolch i chi am eich adborth, sylw, awgrym neu ganmoliaeth, dweud wrthych sut y byddwn yn defnyddio'r hyn rydych wedi'i ddweud wrthym i wella'r hyn rydym yn ei wneud, a chau'r mater.
- Dyrannu eich adborth neu gŵyn i reolwr a fydd yn ymateb i chi.

---

[4] Rheoliad 6(1)(5) yr IPCC (Ymddygiad Staff)

[5] Rheoliad 6 yr IPCC (Ymddygiad Staff)

Os yw eich adborth neu gŵyn yn awgrymu y gall fod achos o dorri rheolau data neu ddiogelwch, caiff ei anfon at ein Swyddog Diogelu Data i'w asesu.

Os bydd eich adborth neu gŵyn yn cael ei ddyrannu i reolwr, byddwn yn rhoi ei enw i chi. Efallai y byddant yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth i wneud yn siŵr eu bod yn deall eich cŵyn, beth aeth o'i le a sut y gallwn ei gywiro.

Bydd y tîm Gwella Ansawdd a Gwasanaeth yn penderfynu os yw'r mater mor ddifrifol fel ei fod yn gyfystyr â honiad o gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol[6] yn unol â'n polisïau adnoddau Dynol Byddant yn dweud wrthych am y penderfyniad hwn. Byddant hefyd yn penderfynu pa fath o ymchwiliad sydd ei angen: adolygiad canfod ffeithiau neu ymchwiliad rheoli ffurfiol.

Mewn rhai amgylchiadau gall fod yn briodol i'r adolygiad i ganfod ffeithiau neu'r ymchwiliad rheoli gael ei gynnal gan y tîm Gwella Ansawdd a Gwasanaeth ei hun.

Bydd y rheolwr bob amser yn rhannu eich adborth neu gŵyn â'r staff dan sylw, heblaw bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny[7].

## Adolygiad canfod ffeithiau

Os nad oes angen ymchwiliad rheoli ffurfiol, gall y rheolwr, neu'r tîm Gwella Ansawdd a Gwasanaeth, gynnal adolygiad canfod ffeithiau rhesymol a chymesur er mwyn canfod beth ddigwyddodd, ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon, a nodi'r hyn a ddysgwyd.

Os oes angen adolygiad canfod ffeithiau ar eich adborth neu gŵyn, bydd y rheolwr fel arfer yn ymateb i'ch adborth neu gŵyn o fewn 20 diwrnod gwaith.Gall rhai adolygiadau canfod ffeithiau gymryd mwy o amser na hyn. Yn yr achosion hynny, byddwn yn rhoi gwybod i chi pa mor hir y disgwyliwn i'r adolygiad gymryd.

## Ymchwiliad rheoli

Gall rheolwr gomisiynu ymchwiliad rheoli[8] dim ond os bydd yn penderfynu bod y mater:

- yn gyfystyr â honiad o gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol, sy'n gofyn am ymchwiliad gan reolwyr o dan ein Polisi Disgyblu a Diswyddo; a/neu
- yn gyfystyr â 'chwyn ddifrifol' o dan y rheoliadau Ymddygiad Staff. Mae cŵyn yn gŵyn ddifrifol os yw'n cael ei phrofi, pe bai'n debygol o arwain at ddiswyddo'r unigolyn dan sylw neu y byddai'n ofynnol iddynt ymddiswyddo[9].

Os bydd eich adborth neu gŵyn yn gofyn am ymchwiliad gan reolwyr, bydd y rheolwr yn ymdrin â'r mater yn unol â'n polisïau ein hun. Mae hyn yn cynnwys penodi ymchwilydd.

---

[6] Rheoliad 3(1)(b) yr IPCC (Ymddygiad Staff)
[7] Rheoliad 3(2) yr IPCC (Ymddygiad Staff)
[8] Polisi Disgyblu a Diswyddo IOPC
[9] Rheoliad 3(3) yr IPCC (Ymddygiad Staff)

Mae ymchwiliadau rheoli yn gymhleth, ac maent yn debygol o gymryd mwy o amser i'w datrys. Byddwn yn cysylltu â chi o fewn 20 diwrnod gwaith ac yn dweud wrthych faint o amser y disgwyliwn i'r ymchwiliad gymryd. Byddwn yn eich diweddaru wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo.

### Canfyddiadau'r ymchwiliad

Byddwn yn dweud wrthych am gynnydd a chanfyddiadau ein hymchwiliad i'ch cwyn. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am yr hyn a ddigwyddodd, os ydym wedi nodi unrhyw gamymddwyn, os dilynwyd ein polisïau neu weithdrefnau, os ydym wedi nodi unrhyw ddysgu, a beth y byddwn yn ei wneud i atal problemau yn y dyfodol. Ar ôl ymchwiliadau rheolwyr, byddwn yn dweud wrthych am ein penderfyniadau am unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd[10], heblaw bod gwneud hynny ddim er budd y cyhoedd. Efallai y byddwn hefyd yn cynnal eich cwyn neu'n ymddiheuro. Gellir cynnal cwynion âa chanfyddiad o gamymddwyn neu heb ganfyddiad.

## Cwynion am staff sydd wedi gadael yr IOPC

Os yw eich cwyn yn ymwneud ag aelod o staff nad yw bellach yn gweithio i'r IOPC, byddwn yn cymryd y cyfle i nodi unrhyw ddysgu, er efallai na fydd angen ymchwiliad. Yn yr un modd, os nad yw'n rhesymol ymarferol neu gymesur i adnabod yr aelod o staff dan sylw, efallai y bydd angen i ni gau eich cwyn.

## Cwynion am ein Cyfarwyddwr Cyffredinol, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a Chyfarwyddwyr Anweithredol

Mae ein Cyfarwyddwr Cyffredinol a’n cyfarwyddwyr anweithredol, gan gynnwys yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, yn cael eu penodi a’u cyflogi’n wahanol i’n staff.Ymdrinnir â chwynion amdanynt o dan bolisi ‘Gwneud cwynion am Gyfarwyddwr Cyffredinol, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a Chyfarwyddwyr Anweithredol yr IOPC’.

## Cwynion o natur droseddol

Nid yw’r IOPC yn cynnal ymchwiliadau troseddol i mewn i'w staff ei hun. Byddwn yn cyfeirio unrhyw faterion at yr heddlu os byddwn yn derbyn gwybodaeth sy'n ein harwain i gredu y dylid cynnal ymchwiliad troseddol i mewn i aelod o'n staff (blaenorol neu bresenol).

---

[10] Rheoliad 5(5) yr IPCC (Ymddygiad Staff)

## Adborth neu gwynion am ein penderfyniadau achos

Yn ystod ein gwaith, rydym yn gwneud penderfyniadau ar sail y dystiolaeth sydd gennym, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Rydym yn gwybod bod pobl weithiau'n anhapus â'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud.

Fodd bynnag, mae ein penderfyniadau ar apeliadau ac adolygiadau yn derfynol. Gallwn ail-agor ymchwiliad IOPC os oes amgylchiadau cymhellol yn unig, megis gwybodaeth newydd arwyddocaol yn dod i'r amlwg[11].

Cysylltwch â'r unigolyn sy'n gyfrifol am eich achos os hoffech ragor o wybodaeth am sut y daethom i benderfyniad. Byddant yn gwneud eu gorau i'ch helpu i ddeall eu penderfyniad.

Gallwch wneud cais i'r llys am adolygiad barnwrol os ydych dal yn anhapus â'n penderfyniad. Mae hon yn broses gyfreithiol a gall gostio arian i chi. Mae rhagor o wybodaeth am adolygiadau barnwrol ar gael ar wefan:

www.gov.uk/government/publications/administrative-court-judicial-review-guide

Bydd eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol yn gallu esbonio'r broses i chi yn fwy manwl. Rydym yn argymell eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol os ydych yn ystyried gwneud cais am adolygiad barnwrol.

## Y camau nesaf os ydych yn anhapus â'n hymateb i'ch adborth neu gŵyn

Gallwch ofyn i'r tîm Gwella Ansawdd a Gwasanaeth adolygu'r ymateb a roddwyd i chi os yw rheolwr wedi delio â'ch adborth neu gŵyn, ond nad ydych yn hapus â'n hymateb. Dylech gyflwyno eich cais am adolygiad o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn eich ymateb.Byddant yn asesu os oedd yr ymateb yn rhesymol a chymesur, gan ystyried amgylchiadau'r achos a difrifoldeb unrhyw bryderon. Os oedd y tîm Gwella Ansawdd a Gwasanaeth yn ymwneud ag ymateb i'ch cwyn, yna uwch reolwr arall fydd yn cynnal yr asesiad hwn.

Os byddant yn penderfynu nad oedd yr ymateb a gawsoch yn rhesymol a chymesur, byddant yn penderfynu pa gamau nesaf sydd eu hangen er mwyn datrys eich cwyn ac ymateb i chi â'u canfyddiadau.  Dyma gam olaf y broses.

Mae gennych yr hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (https://cy.ico.org.uk/) os nad ydych yn fodlon â chanlyniad adolygiad mewnol ein Swyddog Diogelu Data o'changhydfod ynghylch y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais am wybodaeth.

[11] Policy_on_reopening_investigations.pdf (policeconduct.gov.uk). Deddf Plismona a Throseddu 2017 (legislation.gov.uk)

## Sut mae'r polisi hwn yn cysylltu â'n polisïau a'n deddfwriaethau eraill

Dylid ddarllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

Safonau Gwasanaeth yr IOPC

Gwneud cwynion am bolisi Cyfarwyddwr Cyffredinol, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a Chyfarwyddwyr Anweithredol yr IOPC

Rheoli Polisi Cyswllt Defnyddwyr Gwasanaeth Annerbyniol

Polisi Addasiadau Rhesymol

Polisi Lleisio Pryderon

Ailymchwiliad i bolisi ymchwilio gan yr IOPC

Mae ein hysbysiad preifatrwydd a gwybodaeth gysylltiedig ar gael ar ein gwefan ar: [www.policeconduct.gov.uk/privacynotice](http://www.policeconduct.gov.uk/privacynotice)

Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022

**© IOPC 2022**

OGL This is licensed under the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated.

This does not include material on this site as belonging to third parties. Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**
**10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU**
Tel: **0300 020 0096**
Ebost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Neges destun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® CSE